# Fframwaith llythrennedd

# Deunyddiau enghreifftiol

Blwyddyn: 3

Enw'r dasg: Darllen darn personol yn nodi atgofion unigolyn o ddyddiau diwethaf Capel Celyn.

**Gwybodaeth gefndirol :**

- Darllen darn personol yn nodi atgofion unigolyn o ddyddiau diwethaf Capel Celyn, darllen grwp, grwpiau oedran gymysg blynyddoedd 2,3,4.
- Darllen a dehongli gan gysidro a gwneud nodiadau ar beth mae Rhodri Jones yn gofio, yn glywed, yn weld a.y.y.b.
- Adnabod geirfa newydd eu nodi a darganfod eu hystyr mewn geiriadur.

**Sgiliau llythrennedd o fewn y fframwaith :**

**Llafaredd ar draws y cwricwlwm :-**

**Cydweithio a thrafod**

- Cyfrannu i drafodaeth grwp, gan rannu syniadau a gwybodaeth.

**Strategaethau darllen**

**Darllen ar draws y cwricwlwm.**

- Chwilio am wybodaeth benodol mewn testunau gan ddefnyddio cynnwys, mynegeion, geirfau, geiriaduron.

**Darllen a deall**

- Cymryd diddordeb mewn gwybodaeth y tu hwnt i'w profiad personol.

**Ymateb a dadansoddi**

- Defnyddio gwybodaeth o destun wrth drafod neu wrth ysgrifennu.

# Diwrnod ola'r ysgol

**Bron i ddeugain mlynedd wedi boddi cwm Tryweryn, Rhodri Jones, gynt o fferm Craignant, sy'n adrodd hanes diwrnod olaf Ysgol Capel Celyn drwy lygaid plentyn.**

"Be dwi'n ei gofio fwyaf am Celyn yw bod fy nhad a mam a 'nheulu yn siarad am y boddi 'ma oedd yn mynd i ddigwydd.

"Roedd 'na sôn adre ar y ffarm beth oedd yn mynd i ddigwydd i'r bobl ar ôl iddyn nhw gael eu hel o'u cartrefi. Ond doedd neb yn gwybod dim byd. Doedd pobl yr ardal ar y pryd ddim yn gallu cymryd beth oedd yn digwydd i fewn oherwydd 'doedden nhw ddim yn deall fod gan lywodraeth Lerpwl y dechnoleg i fedru boddi cwm cyfa' - roedd rhoi argae drosto a'i lenwi efo dŵr yn anhygoel iddyn nhw, ond fe 'da ni'n gwybod heddiw, mi ddaru nhw wneud hynny, ac yn hawdd hefyd.

"Wrth gwrs, doeddwn i ddim yn dallt yn iawn beth oedd yn digwydd, ond roeddwn i yn dallt fod 'na bryder mawr ynghylch y bobl fyddai'n byw yn y cwm ar ôl i'r gymdeithas i chwalu. Lle 'roedden nhw am fynd i'r capel ac i gyfarfod? Roedd yn amser o drybini mawr i bobl Celyn.

"Fi oedd un o'r plant ola' i gael ei dderbyn i Ysgol Celyn. Wrth fynd i'r ysgol bob dydd, 'dwi'n cofio gweld y cwm yn cael ei ddinistrio gan y peiriannau mawr 'ma. Roedden nhw'n anferth - yn gwneud sŵn mawr a'r ysgol yn crynu wrth iddyn nhw fynd heibio yn cario'r llwythi o bridd yn ôl ac ymlaen.

"Beth sy'n sticio yn fy nghof i fwya' ydy clywed sŵn y *chainsaws* yn gwneud sŵn *buzzian* drwy'r dydd, a gweld y coed yn cael eu towlyd o bellter, a sŵn y coed wrth iddyn nhw ddisgyn i lawr. Roedd y coed fel petasen nhw'n sgrechian, ac roedd yn dod yn agosach ac yn agosach at yr ysgol.

"Fydde ni'n cerdded adref wedyn, a gweld lyris yn pasio, bois yn siarad Saesneg, a'r tai yn cael eu chwalu - yn dod yn agosach ac yn agosach.

"Rhywbeth arall sy'n sefyll yn fy nghof i ydy mynd i'r ysgol ar y diwrnod ola'. Mi ddywedodd un o'r plant hŷn: "Miss, Miss. Ydy o'n wir bod nhw am chwalu'n hysgol ni?"



A dyma Mrs Martha Roberts yn dweud: "Yndi blant, mae o'n wir, maen nhw'n mynd i chwalu'r ysgol a chario'r cerrig i wneud yr argae, a heddiw

fydd y diwrnod olaf fyddwn ni'n eistedd yma fel ysgol. 'Den ni'n mynd i dynnu lluniau rŵan."

"Roedd yna newyddiadurwyr o gwmpas pan adawon ni'r ysgol. Dyma ni'n mynd allan, a Mrs Roberts yn tacluso yn union fel bydde hi'n ei wneud tase fo'n ddiwrnod cyffredin, a'n bod ni am fynd nôl fory, ond wrth gwrs 'doedden ni ddim am fynd yn ôl fory.

"Daeth y plant i gyd yn ôl wedyn i weld beth oedd yn mynd ymlaen. A dyma ni'n eistedd uwch ben y cob yn gweld y dynion efo bwldosers yn dod a chwalu'r ysgol, a liwtio beth bynnag oedd yna a'i gario o'no fel morgrug.

"Roeddwn i, a phawb arall, yn gwybod wedyn mai dyna oedd diwedd Celyn, pan ddaru nhw chwalu'r ysgol, gan mai'r ysgol oedd gem y cwm, ac mi chwalwyd hwnna.

"Dyma ni'n cerdded adref gan wybod yn iawn mewn ryw fis neu ddau y byse'r lle'n llawn o ddŵr.

"Dwi'n cofio'r diwrnod ddaru ni fynd i'r ysgol newydd yn Nghwmtirmynach. Doedd ganddyn nhw ddim clem, yr athrawon na'r plant, beth roedden ni wedi mynd drwyddo yng Nghelyn. Ddaru nhw ddim dangos llawer o gydymdeimlad aton ni wedi i ni golli ein cartrefi a'n cymdeithas.

"Mi ddaru nhw agor yr argae am tua pump o'r gloch, ac mi gafodd pawb o'r cwm ei wa'dd yno. Roedd o fel diwrnod allan. Gan fod 'na ddiod am ddim, aeth llawer o bobl yr ardal yno a meddwi yn ofnadwy.

"Dwi'n cofio dreifio trwy'r dyrfa efo dad yn y fan, a phobl yn protestio ac yn amgylchynu'r fan. Roedden nhw'n meddwl ein bod ni'n ryw bwysigion o Lerpwl, felly ddaru dad agor y ffenest a gweiddi:
"Dwi'n Gymro, dwi'n dod o Creignant, ewch o 'ma, dwi efo chi," a dyma nhw'n stopio, a'n gadael ni drwodd.

"Y peth gwaetha efo Celyn oedd y ffaith bod y Llywodraeth wedi ei wneud o mor ddirgel, er fod 'na bobl yng Nghymru yn gwybod beth oedd yn digwydd dwi'n siŵr.

"Er nad ydw i yn berson gwleidyddol, dwi'n gwybod fod estron wedi dwad i Gymru, wedi chwalu cymdeithas, gwneud argae a gollwng dŵr i'w lenwi o - a wedyn mynd, diflannu, a gadael dim ar eu hôl.

"Roedd yna lot o hanes yng Nghelyn. Mi fyswn i'n hoffi gweld ryw fath o amgueddfa wedi ei hadeiladu ar ochr y ffordd i gofnodi hanes Celyn, yn lle bod yna jest capel coffa gwag, oer.

"Yr effaith mwyaf arna i ydy'r teimlad 'mod i ddim yn dod o nunlle. 'Sgen i ddim cynefin ... .

"Mi gaethon ni - y fferm - ein gadael ar ochr y llyn, a ddaru pawb anghofio amdanon ni. Mi roddodd lot o straen ar fy mam a 'nhad am nad oedd 'na ddim llafur ar ôl yn Celyn - neb i helpu efo hel y gwair na'r defaid. Doedd yna ddim cymdogion i edrych ar ôl yr anifeiliaid os oedden nhw am fynd i ffwrdd i'r sioe, felly doedden nhw ddim yn gallu gadael y ffarm.

"Roedd yn rhaid iddyn nhw weithio'n galetach i wneud i fyny am golli'r cymuned, a felly roedd rhaid i ni blant helpu lot mwy yn lle mynd allan i chwarae.

"Roedd yn anodd iawn gwneud bywoliaeth ar y fferm yn y mynyddoedd uwch ben y llyn."

**Rhodri Jones, Craignant.**

Tystiolaeth

Beth mae Rhodri Jones yn ei gofio am ddyddiau olaf Capel Celyn ?

Beth mae yn deimlo ? Beth mae yn glywed ? Beth mae yn ei weld ?

Beth mae Rhodri Jones yn ei gofio am ddyddiau olaf Capel Celyn ?

Roedd yna fferm wedi gadael ar ochr y llyn.

"Beth yw Swn byssiau yna yn fy ngnot ?", meddai Rhodri Jones.

Yr effaith mwyaf o dan y fey yw ydi bod o yn temlo bod, o'n dad o hinlle.

Roedd yna neb i hel gwair na edrych ar ol y defaid.

Roedd o'n anodd iawn gwneud bywoliaeth ar y fferm yn y mynyddoedd uwch ben y llyn.

Fe oedd y plentyn ola fynd i'r ysgol Tryweryn.

Roedd y plant yn dweud bod nhw yn gorfod helpu mwy yn lle mynd allan i chwarae.

Roedd yna coedwig yn clywed fel bod hi yn sgrechian.

Mae Rhodri Jones wedi gweld peiriant mawr yn chwalu cartref pobol.

Roedd ganddyn nhw ddim clem be roedden nhw am mynd [illegible] rwan.

Llyn mae Rhodri Jones yn ei gofio mwyaf, yn bod ei mam tad yn siarad o dan bada Tryweryn.

*Gwaith da iawn. Cara, mwyt wedi darllen yn fanwl a dangosodd llawer o bethau mae Rhodri Jones yn gofio*